**Y CYNGOR**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 10 CHWEFROR 2023, trwy Microsoft Teams.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Ms Kylie Evans; yr Athro Simon Green; Ms Sharron Lusher; Dr Louise Marshall; Ms Rhuanedd Richards; Aisleen Sturrock, Llywydd UMAber; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed; Ms Claire Vaughan; Dr William Williams; Ms Nicola Wood; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (ar gyfer cofnod 49); Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Steve Thomas; Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; a Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor.

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Kate Eden, a fydd yn dychwelyd i'w swydd ar y Cyngor ym mis Ebrill 2023, a Dafi Jones, Llywydd UMCA.

**39. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

1. Croeso

   Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod.

   Croesawyd Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol, i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

2. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   Dr Jim Provan, Adran y Gwyddorau Bywyd;

   Mr Jeff Saycell, Rheolwr Adnoddau a Thiroedd, y Ganolfan Chwaraeon;

   Rukayat Bukola Akinfolarin, Myfyriwr Meistr Ôl-raddedig, Ysgol Rheolaeth a Busnes; ac

   Olga Kittle, Glanhawr Cyfleusterau, Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd.

3. Dull Cynnal y Cyfarfod

   Er mwyn cynnal cyfarfod effeithiol, gofynnwyd i'r aelodau roi rhybudd ymlaen llaw pe byddent yn dymuno trafod eitem a nodwyd â seren ar yr agenda. Ni wnaed cais, a byddai'r eitemau dan sylw felly'n cael eu cymeradwyo neu eu nodi yn unol â'r argymhelliad a nodwyd ar y flaenddalen.

4. <u>Penderfyniadau a wnaed rhwng cyfarfodydd</u>

Cafodd Adroddiad am Ddigwyddiad Difrifol ei gyflwyno i'r Comisiwn Elusennau. Nodwyd y mater o dan eitem 13.3 (cofnod 51).

<u>Derbyniad dathlu'r 150 yn Nhŷ'r Arglwyddi</u>

Atgoffwyd aelodau'r Cygnor o'r derbyniad i ddathlu'r 150 ar 22 Mawrth 2023.

<u>Cofrestr Buddiannau</u>

Gofynnwyd i Aelodau'r Cyngor ddiweddaru eu cofnod ar y Gofrestr Buddiannau erbyn 20 Chwefror 2023 os nad oeddent wedi gwneud hynny eisoes.

<u>Trefniadau dros dro ar gyfer swydd yr Is-Ganghellor</u>
Cafodd papur ei anfon at yr aelodau cyn cyfarfod y Cyngor ar 10 Chwefror 2023 am 11:00am, yn nodi penderfyniad yr Is-Ganghellor ynghylch y trefniadau dros dro ar gyfer Is-Ganghellor Dros Dro.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyodd yr aelodau benderfyniad yr Is-Ganghellor ynghylch y trefniadau dros dro.

**40. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

Nododd Arwel Thomas, o ran tryloywder, ei fod wedi cael ei benodi i Bwyllgor Archwilio a Risg Coleg Caerdydd a'r Fro fel aelod cyfetholedig.

**41. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2022 (COU2223-067).

Nodwyd bod Kylie Evans yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol.

**PENDERFYNWYD**

Bod y cofnodion yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir, wedi i'r rhestr bresenoldeb gael ei chywiro.

**42. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2223-068).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

**43. GOHEBIAETH**

Llythyr oddi wrth David Blaney – Canlyniadau yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2022

DERBYNIWYD

Llythyr oddi wrth David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC (COU2223-069)

NODWYD

Cytunwyd ar gynllun gweithredu, yn dilyn cyfarfod gydag Adran y Gyfraith a Throseddeg. Mae camau breision wedi'u cymryd ac mae cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru wedi'i anfon at CCAUC. Bydd yn cael ei ddosbarthu i'r Cyngor, er gwybodaeth. [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr) trwy gyfrwng Ysgrifennydd y Brifysgol]

**44. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2223-070)

NODWYD

Denu Myfyrwyr
Mae'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr a gyrhaeddodd ym mis Ionawr yn dangos bod y systemau gweinyddol yn gweithio'n effeithiol.

Gweithredu diwydiannol
Roedd yr UCU wedi cyhoeddi 18 diwrnod o weithredu diwydiannol mewn ymateb i anghydfodau yn ymwneud â thâl ac amodau, a newidiadau i bensiwn yr USS. Yn ôl y swyddogion, yn gyfreithiol, ni ellir gwneud unrhyw beth i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â phensiynau tan 2024 pan fydd y prisiad ffurfiol yn cael ei gynnal.

Bydd polisi i gefnogi’r streicio yn cael ei gyflwyno yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Undeb y Myfyrwyr, a fydd yn cael ei gynnal yn fuan. Safbwynt presennol Undeb y Myfyrwyr yw eu bod yn rhannu’r ffeithiau ond yn aros yn niwtral.

Mae rheoliadau ar waith i liniaru effaith y gweithredu diwydiannol ar fyfyrwyr a'u dysgu a bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n barhaus.
Cadarnhawyd y bydd unrhyw ddidyniadau tâl yn mynd i’r cronfeydd canolog, ac nid i'r gronfa caledi myfyrwyr.

Arolwg barn
Bydd adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio er mwyn ystyried yr ymatebion a'r cynllun gweithredu. Mae sgoriau ymateb y staff wedi gostwng ac mae hyn, yn ôl y cyflenwr, yn adlewyrchu'r duedd yn genedlaethol.

Uwch Benodiadau a Dyfarniadau
Rhoddodd yr Is-Ganghellor wybod am newidiadau yn ddiweddar o ran y staff a phenodiadau. Mae'r prosesau penodi a gynhaliwyd yn ddiweddar wedi bod yn gadarnhaol ac yn gynhwysol.

Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae rhagor o waith i'w wneud a bydd y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio yn ystyried materion cydraddoldeb ac amrywioldeb yn ei sesiwn friffio a fydd yn cael ei chynnal yn fuan.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar Hil wedi cael ei lansio mewn digwyddiad ar y cyd gydag Undeb y Myfyrwyr. Roedd y digwyddiad yn un bywiog a'r nifer a oedd yn bresennol yn dda iawn.

**45. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Claire Williams, Rheolwr Iechyd a Diogelwch (COU2223-071).

NODWYD

Adroddiad anafiadau, afiechydon a digwyddiadau peryglus semester un.

**46. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd Undeb Myfyrwyr Aberystwyth (COU2223-072).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol. Tynnodd yr adroddiad sylw at bwyslais Undeb y Myfyrwyr ar gefnogi myfyrwyr gyda chostau byw; gweithgareddau a digwyddiadau; a sesiynau hyfforddi.

Bu UM yn hyrwyddo ymchwil Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) i effaith y cynnydd mewn costau byw ar fyfyrwyr ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Er mai Prifysgol Aberystwyth oedd â'r gyfradd ymateb uchaf yng Nghymru, roedd y niferoedd yn isel ac felly mae'n bosibl nad ydynt yn gynrychioliadol. Er hynny, roedd yr ymatebion a gyflwynwyd yn ddefnyddiol. Cynhaliwyd arolwg mewnol hefyd gyda Redbrick ar ystod o faterion gan gynnwys boddhad myfyrwyr, lles, y gymuned, undeb y myfyrwyr, ac ymwneud. Mae'r arolwg yn defnyddio sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn yr arolwg fel meincnodau, ac mae Prifysgol Aberystwyth yn cymharu'n ffafriol iawn ym mhob un o'r datganiadau allweddol.

Mae'r cyfraddau tynnu'n ôl yn debyg i'r lefelau cyn Covid, ond roedd mentrau'n cael eu trafod gyda Chymorth i Fyfyrwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i sicrhau bod myfyrwyr yn deall beth yw byw mewn caledi; nid yw llawer ohonynt yn sylweddoli eu bod yn byw mewn caledi ar hyn o bryd ac felly nid ydynt yn gofyn am y gefnogaeth sydd ar gael.

**47. MATERION ARIANNOL**

<u>Cyfrifon Rheoli 2022-23</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro, Mark Godsell (COU2223-073).

NODWYD

1. Mae’r cyfraddau cadw yn parhau i fod yn dda ac mae hynny’n cynorthwyo’r sefyllfa bresennol.

2. Mae’r masnachu fymryn yn well na’r hyn a ragdybiwyd yn y gyllideb.

3. Mae’r rhagdybiaethau o ran y costau ynni yn cyd-fynd â’r rhagolwg. Mae'r fferm solar yn cynhyrchu trydan, sy'n gymorth ariannol ac yn cyfrannu at nod y Brifysgol o gael ystad ddi-garbon.

4. Nid yw nifer yr ymwelwyr wedi dychwelyd i'r lefelau disgwyliedig yng Nghanolfan y Celfyddydau. Mae'r Brifysgol yn mynd i'r afael â'r sefyllfa ac yn ceisio penodi Cyfarwyddwr newydd.

5. Mae trefn atal hyblyg wedi cael ei chyflwyno ar gyfer pob swydd wag, gan arbed £400K. Cadarnhawyd nad oedd y drefn atal yn llym, a’i bod yn galluogi i’r Brifysgol reoli gofynion croes. Nodwyd y byddai pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun, gan ystyried yr effaith ar recriwtio a llwyth gwaith.

**48. MATERION LLYWODRAETHU**

1. Penodi Canghellor

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2223-074).

NODWYD

Bydd cyfnod yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd yn y swydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024.

Mae'r Ordinhadau diwygiedig yn nodi priod gyfrifoldebau’r Canghellor a Chadeirydd y Cyngor, a’r dull o’u penodi. Fodd bynnag, er bod y ddwy swydd yn rhai ar wahân yn ffurfiol, gall y Cyngor benodi'r un unigolyn i gyflawni'r ddwy swydd.

**PENDERFYNWYD**

1. Bydd swyddi’r Canghellor a Chadeirydd y Cyngor yn parhau i fod yn rhai ar wahân.

2. Dylid cynnull pwyllgor dethol i ystyried y broses recriwtio a phenodi, gan wneud argymhelliad wedi hynny i'r Cyngor. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol]

2. Penodi Cadeirydd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2223-075).

NODWYD

Bydd Dr Emyr Roberts yn dod i ddiwedd ei gyfnod fel Cadeirydd y Cyngor ar 31 Rhagfyr 2023.

Mae Cadeirydd y Cyngor yn benodiad hollbwysig, ac mae angen proses benodi drylwyr er mwyn sicrhau bod ymgeisydd addas yn cael ei benodi.

**PENDERFYNWYD**

1. Dylid cynnal proses recriwtio allanol addas.
2. Dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Enwebiadau i ymgymryd â'r broses chwilio, cytuno ar amserlen a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023.

**49. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2223-076)

NODWYD

1. Y trafodaethau diweddaraf â’r prif gontractwr ynghylch Gweithred Amrywio â'r dull ‘prif gost’ yn cael ei gynnig.
2. Gofynion y Brifysgol i sicrhau ei bod yn gallu atal y prosiect ar adegau penodol os yw’r amgylchiadau'n golygu bod angen gwneud hyn, er enghraifft, cynnydd yn y costau yn golygu nad oes modd i’r Brifysgol fforddio’r prosiect.
3. Gofynnodd y Brifysgol am gyngor caffael pan aeth allan i dendr i ddechrau, ac mae wedi comisiynu rhagor o gyngor cyfreithiol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion caffael.
4. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i benodi is-gontractwyr ar sail ansawdd a phris, yn dilyn cyngor gan y tîm dylunio a Blake Morgan.
5. Diolchwyd i Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol a'r tîm am eu gwaith yn ystod y prosiect.

**PENDERFYNWYD**

6. Swyddogion i gadarnhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r gofynion caffael cyn bwrw ymlaen. [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol]
7. Cymeradwyo’r weithred amrywio, yn amodol ar gadarnhau bod y gwaith o fewn y rheolau caffael.

**50. AILENWI IBERS - PENGLAIS**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Tim Macy, Rheolwr Cynllunio Gofod (COU2223-077).

NODWYD

1. Croesawyd y cynnig ac ystyrid ei fod yn gydnabyddiaeth briodol i gyfraniad sylweddol Gwendolen Rees.

2. Cafodd yr adeilad ei ariannu gan Gyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol (BBSRC). Gofynnodd un o'r aelodau a oedd angen gofyn am ganiatâd cyn newid yr enw. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol]

**PENDERFYNWYD**

3. Yn amodol ar dderbyn y caniatâd priodol, cymeradwyodd y Cyngor y cynnig.

## 51. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2223-078);
2. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2223-079);
3. Digwyddiadau Difrifol y rhoddwyd gwybod i'r Comisiwn Elusennau amdanynt (COU2223-080);

   NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

## 52. ADRODDIADAU GAN ISBWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys cofnodion y canlynol (COU2122-081):

1. Y Senedd (23 Tachwedd 2022); a
2. Adnoddau a Pherfformiad (12 Rhagfyr 2022).

NODWYD

3. Yr adroddiadau a dderbyniwyd gan yr isbwyllgorau.

## 53. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn Aberystwyth, a chynhelir sesiwn friffio y diwrnod cynt. Bydd y Llys yn cyfarfod yn y prynhawn ar ôl cyfarfod y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:20.